

Rhestr Gostau

Gwasanaeth	Maint y cais (ha)	Ffi (£)	Disgrifiad o'r gwasanaeth
Gwiriad Dilysu	0.01 – 1.0	50	Bydd y gwasanaeth yma'n cyflawni gwiriad dilysu ar gyfer cais cyn iddo gael ei gyflwyno fel cais llawn. Os yw'r cais yn cael ei bennu'n gais annilys, bydd y gwasanaeth yn cynnwys crynodeb o'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn i'r cais a gafodd ei gyflwyno gael ei gyfrif fel cais dilys.
	1.0	100	Bydd canlyniad y gwiriad dilysu yn cael ei gyhoeddi i'r ymgeisydd o fewn dau ddiwrnod gwaith o ddyddiad y taliad.
Adroddiad Cwmpasu Cyn Cyflwyno Cais	Annedd Sengl	100	Mae'r gwasanaeth yma wedi'i anelu at safleoedd yn ystod camau cyntaf y broses ddylunio.
	0.01 – 0.5	200	
	>0.5 – 1.0	350	Deilliant y gwasanaeth yma fydd adroddiad cryno a fydd yn cynnig adolygiad o'r bwrdd gwaith mewn perthynas â'r ardal adeiladu arfaethedig ac yn cynnwys yr hyn sydd ei angen er mwyn i'r cais sy'n cael ei gyflwyno cael ei gyfrif fel cais dilys.
	>1.0 – 5.0	600	
	>5.0	800	
Adolygiad Manwl Cyn Cyflwyno Cais	Annedd Sengl	150	Bydd y gwasanaeth yma'n cynnwys adolygiad technegol o'r ffurflen cyn cyflwyno cais a'r dogfennau ategol a gafodd eu cyflwyno. Deilliant y gwasanaeth yma fydd adroddiad cryno sy'n mynd i'r afael â chydymffurfiaeth y cais â phob un o'r 6 Safon Genedlaethol.
	0.01 – 0.5	250	
	>0.5 – 1.0	550	
	>1.0 – 5.0	900	

Gwasanaeth	Maint y cais (ha)	Ffi (£)	Disgrifiad o'r gwasanaeth
Adolygid Manwl Bellach Cyn Cyflwyno Cais	Annedd Sengl	250	Mae'r gwasanaeth yma'n cynnwys cynnal cyfarfod* yn un o swyddfeydd y Cyngor yn ogystal â'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu yn rhan o'r adolygiad manwl.
	0.01 – 0.5	400	
	>0.5 – 1.0	700	Yn dilyn y cyfarfod bydd y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy yn cyhoeddi adroddiad sy'n cynnwys crynodeb o'r cyfarfod a chydymffurfiaeth y cais â phob un o'r 6 Safon Genedlaethol.
	>1.0 – 5.0	1100	Bydd dyddiad y cyfarfod yn dibynnu ar argaeledd y swyddog, ond fydd y cyfarfod ddim yn cael ei gynnal yn gynt na 2 wythnos o ddyddiad y taliad ar gyfer y gwasanaeth cyn cyflwyno cais.
	>5.0	1450	
			*Uchafswm yr amser a ganiateir ar gyfer pob cyfarfod o 2 awr.

Gwasanaethau ychwanegol

Gwasanaeth ychwanegol	Maint y cais (ha)	Ffi (£)	Disgrifiad o'r gwasanaeth
Cyngor Technegol	Dd/B	41/awr	Ffi fesul awr er mwyn darparu swyddog y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy i fynychu cyfarfodydd ag adrannau mewnol a'u cwsmeriaid er mwyn cynnal trafodaethau manwl.
Ymweliad â'r Safle / Cyfarfod	0.01 – 0.5	120	Ymweliad â'r safle / cyfarfod i gefnogi'r broses cyn cyflwyno cais.

	>0.5 – 1.0	160	Uchafswm yr amser a ganiateir ar gyfer ymweliad â'r safle o 2 awr.
	>1.0 – 5.0	250	Bydd dyddiad ac amser yr ymweliad / cyfarfod yn cael eu cytuno rhwng y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy a'r ymgeisydd ar ôl derbyn taliad.
	>5.0	300	Yn dilyn y cyfarfod, bydd llythyr sy'n darparu dadansoddiad o'r drafodaeth a'r cyngor a gafodd ei ddarparu gan y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy.